| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enwau Eraill | | 0 |

cbac wjec

# TGAU – NEWYDD

3500N30-1

S19-3500N30-1-R1

## CYFRIFIADUREG – Uned 3
### Tasg Datblygu Meddalwedd

1 MEDI 2018

20 awr

**AR GAEL I YMGEISWYR SYDD WEDI'U COFRESTRU AR GYFER CYMHWYSTER CBAC, WEDI'I GYMERADWYO GAN CYMWYSTERAU CYMRU. NID YW AR GAEL I GANOLFANNAU YN LLOEGR.**

3500N301 01

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Mae gennych 20 awr i gwblhau eich tasg.

Darllenwch y ddalen Gwybodaeth a'r ddalen Tasgau yn ofalus i wneud yn siŵr eich bod yn deall beth sydd ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ac yn gwneud yn siŵr mai eich gwaith chi eich hun, heb gymorth, yw'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu.

Dylai ymgeiswyr gwblhau log mireinio fel sydd wedi'i ddisgrifio dros y dudalen, i esbonio unrhyw broblemau a gododd a sut cafodd y cynllun gwreiddiol ei fireinio o ganlyniad i hynny.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus i wneud yn siŵr bod y gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu yn fanwl gywir.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir, yn cael ei asesu yn eich adroddiad.

Bydd gofyn i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sydd wedi'i gyflwyno.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## Urdd y Celfyddydau Cerameg

Cafodd Urdd y Celfyddydau Cerameg *(Guild of Ceramic Arts)* ei sefydlu yn 2015 i gynorthwyo artistiaid cerameg i rannu barn broffesiynol, cynhyrchu syniadau newydd a lledaenu arferion da drwy'r diwydiant i gyd.

Mae'r Urdd hefyd yn gymdeithas fasnachu sy'n trefnu digwyddiadau hyfforddi ac yn gwerthu cyflenwadau i'r cannoedd o aelodau cofrestredig sydd gan yr Urdd. Mae'r Urdd yn gwerthu eitemau fel odynnau, gwydreddau, crochenwaith bisg, cerameg a chlai.

Mae aelodau'r Urdd yn gallu gweld eitemau ar wefan yr Urdd neu yn eu catalog chwarterol, ac yn gallu archebu'r cynhyrchion maen nhw'n eu dewis dros y ffôn neu drwy e-bost.

Mae'r Urdd yn codi tâl dosbarthu safonol o £5.99 ar gyfer archebion o bob maint. Mae pob archeb yn cael ei hanfon gydag anfoneb, a rhaid talu o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr anfoneb.

Bydd pob archeb dros £50.00, heb gynnwys y tâl dosbarthu, yn cael disgownt 5%.

Os bydd archeb yn cael ei chanslo, bydd yr aelod o'r Urdd neu'r busnes crefftau'n gorfod talu 20% o gost y nwyddau i dalu am y gwaith gweinyddol ac am ddychwelyd yr eitemau i'r warws.

Mae gofyn i chi greu rhaglen fydd yn caniatáu i'r defnyddiwr wneud y canlynol:

- Cofnodi a storio manylion aelodau'r Urdd
- Cofnodi a storio'r cynhyrchion sydd ar werth
- Cofnodi a storio archebion aelodau'r Urdd
- Creu a storio anfoneb ar gyfer pob archeb
- Cynhyrchu ail anfonebau ar gyfer archebion sydd wedi'u canslo
- Gwirio am anfonebau sydd heb eu talu ar ôl mwy na 28 diwrnod

I greu'r rhaglen, dylech chi wneud y canlynol:

- dadansoddi'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi
- dylunio datrysiad i'r broblem sydd wedi'i rhoi
- rhaglennu'r datrysiad i'r broblem sydd wedi'i rhoi
- profi a mireinio'r rhaglen, gan nodi'r camau mireinio yn eich log mireinio
- gwerthuso eich rhaglen.

Lluniwch adroddiad sy'n cynnwys y darnau o waith sydd wedi'u cynnwys ar y dudalen Tasgau. Dylai eich adroddiad fod tua 2,000 o eiriau.

## URDD Y CELFYDDYDAU CERAMEG

Mae **bisg** yn ddefnydd **ceramig** go iawn. Mae **bisg** yn cyfeirio at grochenwaith sydd wedi cael ei danio unwaith ac sy'n barod i gael ei addurno neu ei wydro.

| | | |
|---|---|---|
| Mwg Bisg | PT21234 | £3.30 a TAW |
| Addurn Siôn Corn Bisg | PT32676 | £1.68 a TAW |
| Cadw-mi-gei Eliffant Bisg | PTH042 | £6.96 a TAW |
| Banc Ci Bach yn Eistedd Bisg | PT21444 | £2.40 a TAW |
| Seren Fôr Bisg | PT37485 | £4.96 a TAW |

## Tasgau

### Log Mireinio [5 marc]

Cwblhewch eich log mireinio wrth i chi weithio drwy'r project.

Mae copi o'r log mireinio wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon.

Cwblhewch eich log mireinio i ddangos eich bod wedi:

- gwneud y gweithgareddau yn y drefn gywir
- cofnodi eich cynnydd ym mhob sesiwn
- disgrifio unrhyw broblemau a gododd wrth wneud eich gwaith ym mhob sesiwn
- cyfiawnhau unrhyw newidiadau i'r dyluniad gwreiddiol sydd eu hangen o ganlyniad i'r problemau a gododd
- nodi blaenoriaethau rhesymegol ar gyfer y camau i'w cymryd yn y sesiwn nesaf.

*Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich log mireinio ym mhob sesiwn.*

### Cwmpas y Broblem [8 marc]

Darllenwch y wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn y senario am Urdd y Celfyddydau Cerameg a'r gofynion.

Lluniwch ddogfen sy'n gwneud y canlynol:

- crynhoi'n glir beth yw pwrpas y project
- nodi'r data sydd eu hangen i greu'r rhaglen
- nodi'r gwaith prosesu bydd y rhaglen yn ei wneud
- nodi'r allbynnau sydd eu hangen gan y rhaglen
- darparu amcanion realistig i'r project, a nodi'n glir y tasgau mae'n rhaid i'r rhaglen eu cyflawni i ddatrys y broblem.

*Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich log mireinio.*

### Dylunio [12 marc]

Lluniwch ddyluniad ar gyfer y rhaglen gan gynnwys:

- cyfleusterau mewnbynnu ac allbynnu i'w darparu gan y rhyngwyneb defnyddiwr
- strwythurau data addas er mwyn i'r rhaglen allu cyflawni'r tasgau gofynnol
- cynigion ar gyfer rheolau dilysu i reoli mewnbynnu data a chyfyngu ar wallau
- dyluniadau ar gyfer fformatau mewnbynnu gan gynnwys nodweddion i gynorthwyo cofnodi data
- dyluniadau ar gyfer allbynnau, gan gynnwys y gosodiad wedi'i fwriadu ar gyfer adroddiadau bydd y rhaglen yn eu creu
- dyluniadau ar gyfer rheolweithiau awthentigeiddio
- camau prosesu fel algorithmau gan ddefnyddio confensiynau safonol fel ffug-god neu siartiau llif.

*Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich log mireinio.*

## Effeithiolrwydd y Datrysiad [15 marc]

Mae angen i chi wneud yn siŵr bod y rhaglen orffenedig yn:

- gweithio ac yn ateb holl ofynion Urdd y Celfyddydau Cerameg
- cynnwys rhyngwyneb sy'n hawdd ei ddefnyddio
- modiwlaidd ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon
- cynnwys rheolweithiau awthentigeiddio
- dibynadwy ac yn gadarn.

*Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich log mireinio.*

## Ansawdd Technegol [20 marc]

Mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod wedi ysgrifennu cod sy'n:

- hunanddogfennu ac sydd wedi'i strwythuro'n dda
- defnyddio arddull cyson drwyddo i gyd, gan gynnwys mewnoli a defnyddio gofod gwyn
- defnyddio dynodwyr ystyrlon a chysonion priodol
- defnyddio newidynnau lleol er mwyn defnyddio llai o newidynnau global
- cynnwys rheolweithiau dilysu ac yn gallu trin gwallau fel rhannu â sero
- cynnwys anodi deallus er mwyn dangos eich dealltwriaeth o'r datrysiad.

*Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich log mireinio.*

3500N301
05

## Strategaeth Brofi [8 marc] a Phrofi [8 marc]

Mae angen i chi gynllunio sut i brofi eich rhaglen, ac yna gwneud y gwaith profi. Cofiwch ddefnyddio eich Log Mireinio i nodi'r problemau rydych chi wedi eu datrys wrth ddatblygu eich rhaglen. Lluniwch ddogfen ar gyfer yr adran hon o'r gwaith sy'n dangos eich bod wedi gwneud y canlynol:

- ystyried eich rhaglen wrth ddatblygu eich strategaeth brofi
- rhoi disgrifiad o'r strategaeth brofi o ran y profion a'r data i'w defnyddio
- ystyried sut gallai canlyniadau eich proses brofi nodi meysydd i'w datblygu ymhellach
- llunio cynllun profi manwl
- dylunio data profi priodol
- dilyn eich cynllun profi mewn ffordd resymegol a systematig
- defnyddio ystod lawn o ddata profi
- cyflwyno eich canlyniadau profi gyda sylwebaethau manwl
- defnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.

*Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich log mireinio.*

## Datblygiad Pellach [4 marc]

Lluniwch ddogfen Datblygiad Pellach sy'n gwneud y canlynol:

- ystyried canlyniadau'r broses brofi o ran i ba raddau mae'r rhaglen yn bodloni'r amcanion gafodd eu gosod ar ddechrau'r project
- disgrifio nodweddion da y rhaglen a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach
- cynnig awgrymiadau manwl ar gyfer estyniadau penodol i'r rhaglen.

*Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich log mireinio.*

# TGAU

## CYFRIFIADUREG 2020

### Asesiad di-arholiad – Tasg Datblygu Meddalwedd

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd** | **Rhif yr Ymgeisydd** |
| **Enw'r Ganolfan** | **Rhif y Ganolfan** |

| **Log Mireinio** | |
|---|---|
| Teitl y project | |
| Dyddiad dechrau | |
| Dyddiad gorffen | |

| **Sesiwn 1** | |
|---|---|
| Dyddiad | |
| Hyd y sesiwn | |
| Cynnydd gafodd ei wneud yn y sesiwn hon | |
| Problemau a gododd gyda'r project | |
| Newidiadau gafodd eu gwneud i'r dyluniadau gwreiddiol o ganlyniad i broblemau | |
| Cynllun gweithredu ar gyfer y sesiwn nesaf | |
| Statws cynllun y project (ar amser, yn well na'r disgwyl, ar ei hôl hi) | |
| Cynllun gweithredu i reoli amser | |

| Sesiwn 2 | |
|---|---|
| Dyddiad | |
| Hyd y sesiwn | |
| Cynnydd gafodd ei wneud yn y sesiwn hon | |
| Problemau a gododd gyda'r project | |
| Newidiadau gafodd eu gwneud i'r dyluniadau gwreiddiol o ganlyniad i broblemau | |
| Cynllun gweithredu ar gyfer y sesiwn nesaf | |
| Statws cynllun y project (ar amser, yn well na'r disgwyl, ar ei hôl hi) | |
| Cynllun gweithredu i reoli amser | |

# TGAU

## CYFRIFIADUREG 2020

### Asesiad di-arholiad – Tasg Datblygu Meddalwedd

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd** | **Rhif yr Ymgeisydd** |
| **Enw'r Ganolfan** | **Rhif y Ganolfan** |

| Asesiad di-arholiad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| MEINI PRAWF | Marc Uchaf | Marc y Ganolfan | Marc y Safonwr | SYLWADAU'R GANOLFAN |
| **Cwmpas y Broblem** | **8** | | | |
| **Dylunio** | **12** | | | |
| **Log Mireinio** | **5** | | | |
| **Effeithiolrwydd y Datrysiad** | **15** | | | |
| **Ansawdd Technegol** | **20** | | | |
| **Strategaeth Brofi** | **8** | | | |
| **Profi** | **8** | | | |
| **Datblygiad Pellach** | **4** | | | |
| **Cyfanswm** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **80** | | | |

| Asesiad di-arholiad – Sylwadau |
|---|
| **I'w gwblhau gan y goruchwyliwr yn ystod yr asesiad di-arholiad.**<br>Nodwch ble cafodd cymorth y tu hwnt i arweiniad goruchwylio arferol ei roi a sut mae hyn wedi effeithio ar y marciau a gafodd eu dyfarnu. |
| |

| Rhestrwch y ffynonellau gwybodaeth a gafodd eu defnyddio wrth ddatblygu'r asesiad di-arholiad. |
|---|
| |

| HYSBYSIAD I YMGEISWYR |
|---|
| Rhaid mai eich gwaith chi eich hun yw'r gwaith rydych yn ei gyflwyno i'w asesu.<br><br>Os ydych chi'n copïo oddi wrth rywun arall, yn caniatáu i ymgeisydd arall gopïo oddi wrthych chi, neu os ydych chi'n twyllo mewn unrhyw ffordd arall, gallech chi gael eich diarddel o'r pwnc o dan sylw o leiaf. |

| DATGANIAD GAN YR ATHRO/ATHRAWES | DATGANIAD YR YMGEISYDD |
|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi cael ei wneud o dan yr amodau sydd wedi'u nodi yn y fanyleb.<br><br>Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd y gwn i, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn sydd wedi'i gynhyrchu.<br><br>**Llofnod yr athro/athrawes:**<br><br>**Dyddiad:** | Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeiswyr** (uchod).<br><br>Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith sydd wedi'i atodi heb gymorth heblaw am yr hyn mae fy athro/athrawes wedi esbonio sy'n dderbyniol o fewn y fanyleb.<br><br>**Llofnod yr ymgeisydd:**<br><br>**Dyddiad:** |

# TUDALEN WAG

PMT



TUDALEN WAG